Cynllun Natur y Bobl

# Nodiadau Cyfarfod 4 Grŵp Cynghori Cynulliad Natur y Bobl – Crynodeb

19 Ionawr 2023

## Crynodeb o'r Cyfarfod

Hwn oedd pedwerydd cyfarfod Grŵp Cynghori Cynulliad Natur y Bobl, a'r olaf. Cynhaliwyd y cyfarfod ar-lein gan ddilyn yr agenda ganlynol:

- Croeso ac amlinelliad o'r agenda
- Crynhoi Penwythnosau 2 a 3
- Cyflwyniad i gynllun Penwythnos 4
- Amserlen lansio'r cynllun
- Ymateb i/ymgysylltu â'r Cynllun
- Adborth o'r sesiynau grŵp
- Unrhyw fater arall

## Presennol yn y Cyfarfod

- Cadeirydd: Involve
- Aelodau'r grŵp cynghori:
    - Buzz Saltmarsh
    - Tom Chigbo
    - Miranda Geelhoed
    - Anurag Deb
    - Aekus Kamboj
    - Sarah Hendry
    - Nadeem Perera
    - Ali Morse

  - Meriwether Wilson
  - Sarah Royal
- Arweinydd Academaidd: Nathalie Seddon
- Cynrychiolwyr tîm y prosiect o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, RSPB, WWF a'r Prosiect Dinasyddiaeth Newydd

### Ymddiheuriadau

Thomasina Miers, Tony Juniper, Hedd Pugh, NFU Cymru, Rebecca Lovell

### Crynodeb o'r drafodaeth

Gwrandawodd aelodau'r Grŵp Cynghori ar grynodeb o Benwythnosau 2 a 3, a chynlluniau ar gyfer Penwythnos 4 a lansio Cynllun y Bobl. Dilynwyd hyn gan grwpiau trafod lle'r oeddent yn trafod ymateb i'r Cynllun neu ymgysylltu ag ef ar ôl ei lansio. Cafodd sylwadau penodol ynghylch sesiynau briffio siaradwyr ac awgrymiadau siaradwyr eu bwydo'n uniongyrchol i ddogfen dylunio Penwythnos 4 a helpu i lunio'r cynnwys.

Dyma rai themâu a ddeilliodd o'r grwpiau trafod:

- Mae'n bwysig bod y Cynllun yn cael ei gyfleu mewn ffordd sy'n hygyrch i gynifer o bobl â phosibl – beth bynnag fo'u cefndir a ble maent yn byw
  - Sut ydyn ni'n sicrhau bod pobl yn barod i dderbyn y wybodaeth? Sut ydyn ni'n eu paratoi ar gyfer hyn?
  - Ystyried cyfieithu'r Cynllun i'r Aeleg (mae'r cyfieithiad Cymraeg eisoes wedi'i gynnwys yn y gyllideb)
  - Ystyried gwahanol fformatau neu ddulliau o ledaenu'r neges, yn enwedig y rhai sy'n gweithio i bobl ifanc
- Beth yw'r daith barhaus i gyfranogwyr? Sut gallant barhau i gymryd rhan ar ôl penwythnos olaf y Cynulliad? Ystyried y gallai rhai ohonynt fod yn weithgar yn eu cymunedau yn barod

- Beth yw'r potensial i bleidiau gwleidyddol ymrwymo i gwrdd â chynrychiolwyr y cynulliad?
- Ystyried sut gallwn ni helpu i godi ymwybyddiaeth o'r argyfwng natur yn ehangach (y tu hwnt i'r Cynllun), gan ddadansoddi cymhlethdod yr wybodaeth a mynd i'r afael â chamwybodaeth
- Yn ein negeseuon, mae'n hanfodol ein bod yn glir bod hyn wedi dod gan y bobl drwy broses gadarn iawn

**Y Camau Nesaf**

- Kat i gysylltu â Nadeem i drafod sut i sicrhau bod y Cynllun yn cyrraedd cymaint o gynulleidfaoedd â phosibl. Cynigiodd Nadeem rannu canllawiau sy'n gweithio i'w gynulleidfa.
- Tîm y prosiect i gynllunio taith barhaus i gyfranogwyr y cynulliad
- Tîm y prosiect i rannu'r Cynllun ac asedau cymdeithasol perthnasol gyda'r Grŵp Cynghori pan fyddant yn barod ym mis Mawrth